# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 5 Awst 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6404

# 285

**Adalw'r Senedd o dan Reol Sefydlog 34.9 yw'r cyfarfod hwn**

## Datganiad gan y Llywydd

Dechreuodd yr eitem am 13.29

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i gyfarfod adalw'r Senedd o dan Reol Sefydlog 34.9 a nododd y bydd y Cyfarfod Llawn hwn, sy'n cael ei gynnal drwy gynhadledd fideo yn unol â Rheolau Sefydlog y Senedd, yn gyfystyr â thrafodion y Senedd at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Datganodd y Llywydd, wedi ymgynghori gyda'r Pwyllgor Busnes, y bydd rhai o ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34 yn gymwy - mae'r rhain wedi eu nodi ar yr agenda.

Hefyd, cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd yr Aelodau bod Rheolau Sefydlog yn ymwneud â threfn yn y Cyfarfod Llawn yn gymwys i'r cyfarfod hwn.

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, mae'r cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, er y byddai'r cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a byddai'r cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

## 1 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 13.30

## 2 Aelodaeth Pwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 14.35

NDM7361 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Angela Burns (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

NDM7362 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Suzy Davies (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

NDM7363 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Andrew RT Davies (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn lle Angela Burns (Ceidwadwyr Cymreig).

NDM7364 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn lle Andrew RT Davies (Ceidwadwyr Cymreig).

NDM7365 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol David Melding (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn lle Suzy Davies (Ceidwadwyr Cymreig).

NDM7366 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Laura Anne Jones (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn lle David Melding (Ceidwadwyr Cymreig).

NDM7367 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Laura Anne Jones (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Janet Finch-Saunders (Ceidwadwyr Cymreig).

**Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 3 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 14.36

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7358** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Gorffennaf 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 4 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 4 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020

Dechreuodd yr eitem am 14.36

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7359** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 2 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 5 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Dechreuodd yr eitem am 14.36

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7360** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Gorffennaf 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 2 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.14D, am 15.02, cafodd y trafodion eu hatal dros dro er mwyn caniatáu egwyl technegol cyn y cyfnod pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 15.15

Daeth y cyfarfod i ben am 15.18

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 26 Awst 2020**